

Cyngor Defnyddiol - Gweithio gyda Phobl

Yn ystod y cyfnod ansicr hwn, mae sicrhau eich bod yn cyfathrebu'n dda gydag aelodau staff yn bwysicach nag erioed i. Maent yn poeni am eu hiechyd eu hunain a bydd dyfodol eich busnes chi'n effeithio arnynt. Felly, mae siarad yn hynod bwysig.

- Eisteddwch i lawr gyda nhw i gael sgwrs yn rheolaidd. Gallai fod yn sgwrs dros baned ganol y bore. Gofynnwch iddyn nhw sut mae pethau.
- Gofynnwch iddynt a oes angen newid eu horiau gwaith. Mae'n bosibl bod ganddynt bartneriaid adref sy'n cael trafferth ymdopi gyda gofal plant, a gallai fod yn ddefnyddiol pe byddai modd iddyn nhw helpu gyda hynny.
- Ydyn nhw'n hapus gyda'r mesurau yr ydych chi wedi'u cyflwyno o ran hylendid a chadw pellter cymdeithasol yn y gweithle? A oes ganddynt unrhyw awgrymiadau pellach?
- Trafodwch yr heriau o fewn y diwydiant yn gyffredinol a'r heriau mae eich busnes chi'n benodol yn eu hwynebu. Byddant wedi clywed bod pethau'n anodd yn y cyfryngau. Bydd siarad am y peth yn eu helpu nhw yn ogystal â chi. Trafodwch sut allai'r busnes newid er mwyn ymdopi gyda'r heriau hyn. Mae'n bosibl y byddai ganddyn nhw syniadau da hefyd.
- Siaradwch am fod yn weithwyr allweddol yn ystod yr argyfwng hwn. Eglurwch eu rôl o ran cadw'r wlad i fynd yn ystod y cyfnod. Mae hyn yn bwysig iawn gan fod cymaint o feirniadu wedi bod yngl n â'r diwydiant amaeth dros y blynyddoedd diwethaf ac mae llawer o bobl yn teimlo fel eu bod yn cael eu trin yn annheg, gan gynnwys staff. Felly, bydd trafod sut mae hyn wedi newid yn ystod yr argyfwng hwn yn rhoi hwb iddynt. Mae pob un ohonom angen teimlo fel bod yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yn bwysig.
- Mae pawb angen teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae llawer ohonom yn barod iawn i feirniadu neu'n araf yn rhoi canmoliaeth - dylech droi hyn ar ei ben. Wrth ganmol arfer dda, rydych chi'n fwy tebygol o weld mwy ohono. Felly, un rheol dda i'w chofio yw - rhwch werthfawrogiad 5 gwaith yn amlach na beirniadaeth.
- Cyfathrebwch yr hyn yr ydych chi'n ceisio ei gyflawni o fewn eich busnes yn glir. Nid yw aelodau staff yn gallu darllen eich meddwl! Gosodwch ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r rhain yn fesurau sy'n bwysig i chi. Gadewch i'r staff eich cynorthwyo i'w gosod a byddant yn fwy tebygol o weithio tuag atynt.
- Cofiwch fod pobl yn efelychu'r hyn yr ydych chi'n ei wneud yn hytrach na'r hyn yr ydych yn ei ddweud. Felly mae'n rhaid i chi ddilyn eich pregeth eich hun. Er enghraifft, os ydych chi'n dweud fod glendid yn bwysig ond nad ydych yn gweithredu ar hynny, ni fydd eich staff yn gwneud hynny chwaith.
- Os oes angen i chi roi staff ar ffyrlo, sicrhewch eich bod yn ael cyngor da yngl n â sut i wneud hynny. Yna, eglurwch yn onest i'ch gweithwyr pam eich bod yn cymryd y camau hyn. Byddwch yn barod i ateb eu cwestiynau. Trefnwch i gadw mewn cysylltiad gyda nhw os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.
- Gofynnwch i'r staff eich helpu i lunio cynllun wrth gefn os bydd unrhyw un yn dal y feirws neu'n gorfod hunan-ynysu os bydd aelod o'u teulu'n dal y feirws.



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

Rhai cwestiynau cyffredinol y gallech fod yn eu hystyried i sicrhau eich bod yn cael y gorau o'ch gweithwyr.

Gofynnwch y cwestiynau yma i'ch staff yn rheolaidd.

- Beth ydych chi'n ei feddwl mewn gwirionedd?
- Ar ddiwedd eich cyfnod yn gweithio yma gyda ni, beth hoffech chi ddweud eich bod wedi ei gyflawni yma?
- Beth sydd angen ei wella yn y busnes nad ydw i wedi sylwi arno o'r blaen? Beth fyddech chi'n ei wneud ynglŷn â'r peth?
- Beth ydym ni'n ei osgoi er ei fod o'n blaenau ni?
- Pa newidiadau fyddai angen eu gwneud i'ch gwaith er mwyn i'r swydd fod yn hollol iawn ar eich cyfer?



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813